

Ail adroddiad i'r Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9

Chwefror 2022



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddSafonau

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**

E-bost: **SeneddSafonau@senedd.cymru**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2022**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Ail adroddiad i'r Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9

Chwefror 2022



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddSafonau

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Cadeirydd y Pwyllgor:
Vikki Howells AS
Llafur Cymru



Andrew RT Davies AS
Ceidwadwyr Cymreig



Heledd Fychan AS
Plaid Cymru



John Griffiths AS
Llafur Cymru

Cynnwys

1. Cyflwyniad.....	5
2. Trafod yr Adroddiad.....	6
Atodiad A - Adroddiad gan Gomisiynydd Safonau y Senedd.....	8
1. CYFLWYNIAD	8
2. YR YMCHWILIAD	9
3. DARPARIAETHAU PERTHNASOL.....	9
4. FFEITHIAU A SEFYDLWYD	10
5. TRAFODAETH	11
6. MATERION O EGWYDDOR CYFFREDINOL.....	14
7. Y BROSES	14
ATODIAD	15

1. Cyflwyniad

1. Sefydlwyd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad (y Pwyllgor) ar gyfer y Chweched Senedd ar 23 Mehefin 2021.

2. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor i'w weld yn Rheol Sefydlog 22.1. Yn unol â'r swyddogaethau yn Rheol Sefydlog 22.2, rhaid i'r Pwyllgor:

“mewn perthynas ag unrhyw gŵyn a gyfeirir ato gan y Comisiynydd Safonau... ymchwilio i'r gŵyn, cyflwyno adroddiad arni ac, os yw'n briodol, argymhell camau mewn perthynas â hi.”¹

3. Gwneir yr adroddiad hwn i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9 a pharagraffau 1.7 ac 8.1 o'r Weithdrefn ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau o'r Senedd (y Weithdrefn), mewn perthynas â chwyn a wnaed yn erbyn y cyn-aelod Neil McEvoy.

4. Mae'r adroddiad gan y Comisiynydd Safonau Dros Dro (“y Comisiynydd”) ar ei ymchwiliad i'r gŵyn wedi'i atodi yn Atodiad A. Mae'n nodi manylion y gŵyn a chanfyddiadau ymchwiliad ffurfiol y Comisiynydd.

5. Mae'r adroddiad hwn yn nodi manylion y gŵyn a'r ffordd y penderfynodd y Pwyllgor ar ei argymhelliad.

¹ [Rheolau Sefydlog Senedd Cymru](#)

2. Trafod yr Adroddiad

6. Fe wnaeth y Comisiynydd ystyried 15 cwyn yn erbyn Neil McEvoy ynghylch methiant honedig i ddatgan buddiant perthnasol mewn perthynas â dwy ddeiseb yn ymwneud â Chanolfan Ganser Felindre yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 9 Chwefror 2021².

7. Cwblhaodd y Comisiynydd ei adroddiad ar y mater hwn ar 13 Ebrill 2021. Roedd hyn ar ôl dechrau toriad y Senedd dros y Pasg a'r cyfnod cyn y diddymiad. Ceisiodd y Pwyllgor blaenorol gyngor gan y Llywydd ynglŷn ag ymdrin â materion yn ystod y toriad/cyfnod cyn y diddymiad. Cafwyd y cyngor a ganlyn gan y Llywydd:

“Mewn perthynas ag unrhyw adroddiadau pellach a geir gan y Comisiynydd Safonau cyn dechrau'r cyfnod cyn y diddymiad, rwy'n nodi bod ymchwiliadau gan y Comisiynydd wedi'u hatal yn ystod cyfnod etholiad o dan y Weithdrefn Gwynion. Yn unol â hyn, rwyf wedi dod i'r casgliad y dylai'r Comisiynydd Safonau weithredu'n gyson â'r egwyddor hon a pheidio â chymryd unrhyw gamau pellach i drafod unrhyw adroddiadau o'r fath wedi i doriad y Senedd neu ei chyfnod cyn y diddymiad ddechrau. Mae'r dull gweithredu hwn hefyd yn parchu penderfyniad y Pwyllgor Busnes.”

8. Felly nid oedd y Pwyllgor blaenorol yn gallu cwrdd i drafod yr adroddiad hwn.

9. Gan nad yw Neil McEvoy bellach yn Aelod o'r Senedd, mae'r weithdrefn yn nodi bod y sancsiynau y mae modd eu gosod os canfyddir achos o dorri'r rheolau yn gyfyngedig, a rhaid i'r Pwyllgor ystyried hyn wrth ystyried pa gamau, os o gwbl, i'w cymryd mewn perthynas â chwyn yn erbyn cyn-Aelod.³

10. Ar ôl trafod canfyddiadau'r Comisiynydd a rhai'r Pwyllgor blaenorol ar y mater hwn a oedd yn destun cwyn gynharach (adroddiad 02-21), derbyniodd y Pwyllgor ganfyddiad y Comisiynydd fod yr achos hwn yn torri Rheol Sefydlog 17.24A, paragraff 9 o'r Cod Ymddygiad, a'r egwyddorion uniondeb ac arweinyddiaeth.

11. Cytunodd y Pwyllgor na ddylid argymhell unrhyw gamau pellach yn adroddiad y Comisiynydd o ystyried y ffaith na chafodd Neil McEvoy ei ailethol yn Aelod o'r Senedd.

² **Cofnod y Trafodion**, 24 Mawrth 2021

³ **Gweithdrefn y Senedd ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau o'r Senedd**

12. Fodd bynnag, er budd tryloywder ac er budd y cyhoedd, ac yn unol â'r weithdrefn sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyhoeddi adroddiadau'r Comisiynydd, rydym wedi atodi adroddiad y Comisiynydd i'r adroddiad hwn.

Atodiad A - Adroddiad gan Gomisiynydd Safonau y Senedd

Ymchwiliad i 15 cwyn yn erbyn Neil McEvoy AS

1. CYFLWYNIAD

1.1 Ar 9 a 10 Chwefror 2021, cefais un ar hugain o gwynion yn erbyn Neil McEvoy yn honni iddo fethu â datgan buddiant perthnasol yn y Pwyllgor Deisebau ar 9 Chwefror cyn cymryd rhan yn y trafodion ynghylch deisebau P-05-1001 Cynnal ymchwiliad annibynnol i'r dewis o safle ar gyfer y Ganolfan Ganser Felindre newydd arfaethedig a P-05-1018 Cefnogaeth ar gyfer y cynlluniau arfaethedig presennol i adeiladu Canolfan Ganser Felindre newydd yng Nghaerdydd mewn unrhyw ymchwiliad yn y dyfodol. Ni wnaeth chwe achwynydd barhau â'u cwynion. Gwnaeth nifer o'r 15 achwynydd arall gwynion eraill yn erbyn Mr McEvoy, gan benderfynu yn ddiweddarach i beidio â pharhau â hwy. Dyma fy adroddiad o fy ymchwiliad i'r pymtheg cwyn o fethu â datgan buddiant perthnasol.

1.2 Rhestrir copiâu o'r dogfennau perthnasol yn yr Atodiad. Darperir troednodiadau a dolenni nod tudalen lle bo hynny'n briodol. Mae dyfyniadau o ddogfennau mewn testun wedi'i italeiddio. Mae manylion personol wedi cael eu golygu pan nad oeddent o unrhyw werth tystiolaethol.

1.3 Fe wnes i ystyried a ddylid cyfeirio'r cwynion hyn at y Llywydd o dan drefniant anffurfiol rhwng cyn-Gomisiynwyr a'r Llywydd, lle'r oedd y telerau'n nodi bod cwynion a wnaed i'r Comisiynydd ynghylch ymddygiad yn y Cyfarfod Llawn neu mewn pwyllgor yn cael eu cyfeirio at y Llywydd. Ar ôl cymryd cyngor cyfreithiol, penderfynais beidio â chyfeirio'r cwynion hyn at y Llywydd. Fy rheswm dros wneud y penderfyniad hwnnw oedd bod sail gyfreithiol y cytundeb anffurfiol yn aneglur ac oherwydd ei bod yn ymddangos mai unig fwriad y cytundeb oedd ymdrin â chwynion am ymddygiad afreolus a oedd yn digwydd gerbron y Llywydd neu Gadeirydd Pwyllgor. Mewn achosion o'r fath, ni fyddai angen unrhyw ymchwiliad.

Mae'r cwynion hyn o natur wahanol ac yn amlwg mae angen ymchwilio iddynt yn llawn i raddau a natur y buddiant yr honnir yr oedd gan Mr McEvoy ym mhwnnc y ddwy ddeiseb. Roedd yn ymddangos i mi, gyda'r pwerau ymchwilio i orfodi presenoldeb tystion a chynhyrchu dogfennau, fy mod mewn sefyllfa well i gynnal ymchwiliad o'r fath na'r Llywydd neu Gadeirydd y Pwyllgor.

2. YR YMCHWILIAD

2.1 Ar 16 Chwefror, dywedais wrth yr achwynwyr am fy mhenderfyniad fod y cwynion mewn perthynas â methu â datgan buddiant perthnasol yn dderbyniadwy. Ar 2 Mawrth, rhoddais wybod i Mr McEvoy am fy mhenderfyniad fod y cwynion mewn perthynas â methu â datgan buddiant perthnasol yn dderbyniadwy ac anfonais holiadau ato yn cynnwys cwestiynau sy'n berthnasol i'm hymchwiliad i'w cwblhau a'u dychwelyd. Yng ngoleuni rhai o'i atebion, anfonais holiadau pellach ato, gan aralleirio'r cwestiynau ychydig. Yn y llythyr hwnnw, gofynnais iddo hefyd roi atebion i gwestiynau 17 ac 18 yn yr holiadau gwreiddiol gan nad oedd wedi eu hateb. Er iddo gwblhau a dychwelyd yr holiadau pellach erbyn y dyddiad priodol, ni atebodd gwestiwn 17 na chwestiwn 18 yn yr holiadau gwreiddiol. Adolygais y dystiolaeth a gasglwyd mewn perthynas â'r cwynion fod Mr McEvoy wedi methu â datgan yr un buddiant perthnasol yn y Pwyllgor Deisebau ar 15 Medi 2020. Ar ôl ystyried y deunydd a gyflwynwyd i mi, fe wnes i gwblhau fy ymchwiliad a drafftio'r adroddiad hwn.

3. DARPARIAETHAU PERTHNASOL

3.1 Mae Rheol Sefydlog 17.24A yn darparu –

Cyn cymryd rhan mewn unrhyw drafodion pwyllgor, rhaid i Aelod ddatgan unrhyw fuddiant, boed yn ariannol neu fel arall, sydd gan yr Aelod, neu hyd y gŵyr yr Aelod, sydd gan aelod o'i deulu, neu y mae'r Aelod neu aelod o'i deulu yn disgwyl ei gael sy'n berthnasol i'r trafodion hynny, ac y gellid ystyried yn rhesymol gan eraill ei fod yn dylanwadu ar gyfraniad yr Aelod.

3.2 Mae paragraff 9 o'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Senedd yn darparu –

Ar yr adeg berthnasol yn unrhyw drafodion y Senedd, rhaid i'r Aelod ddatgan unrhyw fuddiannau, ariannol neu fel arall, sydd gan yr Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, aelod o deulu'r Aelod, neu y maent yn disgwyl eu cael, sy'n berthnasol i'r trafodion hynny, y gallai fod yn rhesymol i bobl eraill ystyried y byddai hynny'n dylanwadau ar gyfraniad yr Aelod.

3.3 Mae paragraff 4 o'r Cod hwnnw'n darparu, ymhlith pethau eraill –

Dylai Aelodau o'r Senedd gadw at y saith egwyddor gyffredinol ynghylch ymddygiad a nodwyd gan y Pwyllgor ar Safonau Bywyd Cyhoeddus. Dyma'r saith egwyddor: b. Uniondeb: Ni ddylai deiliaid swyddi cyhoeddus eu rhoi eu hunain o dan unrhyw rwymedigaeth ariannol neu rwymedigaeth arall tuag at unigolion neu gyrff allanol a allai geisio dylanwadu arnynt wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau swyddogol.

Dylai Aelodau o'r Senedd bob amser ymddwyn mewn ffordd a fydd yn cynnal a chryfhau ffydd a hyder y cyhoedd yn unplygrwydd y Senedd ac osgoi unrhyw ymddygiad a fydd yn dwyn gwarth ar y Senedd neu ar ei Aelodau'n gyffredinol. Ni ddylai'r Aelodau ofyn i staff Comisiwn y Senedd na staff Llywodraeth Cymru weithredu mewn unrhyw ffordd a allai gyfaddawdu amhleidioldeb gwleidyddol y Gwasanaeth Sifil a/neu staff Comisiwn y Senedd neu wrthdaro â Chod y Gwasanaeth Sifil a/neu God Ymddygiad Staff Comisiwn y Senedd.

(g) Arweiniad: Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion hyn drwy roi arweiniad a dangos esiampl.

4. FFEITHIAU A SEFYDLWYD

4.1 Fe wnes i ganfod y ffeithiau a ganlyn fel rhai a sefydlwyd –

- i.** Roedd Mr McEvoy yn aelod o'r Pwyllgor Deisebau a drafododd, ar 9 Chwefror 2021, y deisebau P-05-1001 Cynnal ymchwiliad annibynnol i'r dewis o safle ar gyfer y Ganolfan Ganser Felindre newydd arfaethedig a P-05-1018 Cefnogaeth ar gyfer y cynlluniau arfaethedig presennol i adeiladu Canolfan Ganser Felindre newydd yng Nghaerdydd mewn unrhyw ymchwiliad yn y dyfodol;
- ii.** Mewn perthynas â'r ddwy ddeiseb hon, fe wnaeth Mr McEvoy ddatgan ei fuddiant mewn cael y gofal canser gorau posibl yn Ne Cymru. Methodd â datgan y budd perthnasol yn codi o'i wrthwynebiad cyhoeddus cryf i'r datblygiad arfaethedig ar safle'r Dolydd Gogleddol;
- iii.** Roedd y ddwy ddeiseb yn ymwneud â datblygiad arfaethedig safle'r Meadows drwy adeiladu Canolfan Ganser newydd Felindre arno: Roedd deiseb P-05-1001 yn gwrthwynebu'r datblygiad ac roedd deiseb P-05-1018 yn ei chefnogi;
- iv.** Sefydlwyd grŵp Facebook Save the Northern Meadows a grŵp Facebook Save the Whitchurch Meadows gyda'r prif nod o warchod safle'r Dolydd a gwrthwynebu adeiladu arno;
- v.** Am sawl mis cyn y cyfarfod Pwyllgor hwnnw, roedd modd gweld bod Mr McEvoy yn aelod ar dudalennau Facebook y ddau grŵp ymgyrchu hyn;
- vi.** Ar 20 Mehefin 2020, roedd Mr McEvoy yn bresennol mewn digwyddiad a drefnwyd gan grŵp Achub y Dolydd Gogleddol ar safle'r Dolydd;
- vii.** Tra'r oedd yn y digwyddiad hwnnw, gwnaeth fideo yn dangos ei bresenoldeb yno, lle mynegodd ei wrthwynebiad cryf i'r gwaith arfaethedig i adeiladu Canolfan Ganser newydd Felindre ar y safle hwnnw;
- viii.** Yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw, postiodd glip o'r fideo hwnnw ar ei gyfrif Facebook a chlip gwahanol ohono ar ei gyfrif Twitter;

- ix.** Rhwng 20 a 30 Mehefin 2020, ysgrifennodd Mr McEvoy at y Gweinidogion Iechyd a'r Amgylchedd yn nodi na fyddai adeiladu ar y safle hwnnw'n ddatblygiad, ond yn gyfystyr â halogiad a fandaliaeth amgylcheddol ar ei waethaf;
- x.** Ar 30 Mehefin 2020, achosodd i gopi o'r llythyr hwnnw gael ei bostio ar ei gyfrif Facebook;
- xi.** Ar 17 Gorffennaf 2020 neu oddeutu'r dyddiad hwnnw, postiodd Mr McEvoy fideo ar ei gyfrif Facebook lle anogodd aelodau'r cyhoedd i arwyddo ei ddeiseb i ddod â chynlluniau datblygu lleol i ben, a honnodd y byddai hyn yn atal datblygiad ar safleoedd meysydd glas;
- xii.** Mewn trydариadau ar 26 a 27 Awst 2020, nododd Mr McEvoy ei gytundeb â'r farn a fynegwyd gan rai gweithwyr meddygol proffesiynol nad oedd safle'r Dolydd yn briodol ar gyfer Canolfan Ganser arfaethedig newydd Felindre;
- xiii.** Am 0638 ar 15 Medi 2020, lai na phedair awr cyn roedd cyfarfod y Pwyllgor Deisebau i fod i ddechrau, postiodd Mr McEvoy destun ar ei gyfrif Facebook yn mynegi ei bryder ynghylch gwaith adeiladu arfaethedig Canolfan Ganser Felindre ar safle'r Dolydd;
- xiv.** Mewn e-bost at y Comisiynydd Dros Dro dyddiedig 30 Medi 2020, dywedodd Mr McEvoy nad oedd yn teimlo bod ganddo fuddiant i'w ddatgan, felly nad oedd wedi gwneud hynny. Gwnaed y datganiad hwnnw mewn perthynas â chwynion ei fod wedi methu â datgan buddiant perthnasol yn yr un ddwy ddeiseb cyn cymryd rhan yn nhrefodion y Pwyllgor Deisebau ar 15 Medi 2020;
- xv.** Ym mis Medi 2020, gwnaed 66 o gwynion i mi yn honni fod Mr McEvoy, yng nghyfarfod y Pwyllgor Deisebau ar 15 Medi 2020, wedi methu â datgan buddiant perthnasol cyn cymryd rhan yn y trafodion ynghylch yr un ddwy ddeiseb; Ar ôl ymchwilio, fe wnes i ddarganfod fod Mr McEvoy wedi mynd yn groes i'r darpariaethau perthnasol a bennir yn adran 3 o'r adroddiad hwn. Anfonwyd fersiwn derfynol adroddiad fy ymchwiliad at Mr McEvoy ar 17 Tachwedd 2020.

5. TRAFODAETH

5.1 Ac eithrio agenda a chofnodion y Pwyllgor Deisebau ar 9 Chwefror, y trydариad dyddiedig 20 Rhagfyr 2020 a'r holiadau a gwblhawyd gan Mr McEvoy, mae'r dystiolaeth mewn perthynas â'r cwynion presennol yr un fath â'r dystiolaeth mewn perthynas â'r cwynion blaenorol mewn perthynas â'r Pwyllgor Deisebau ar 15 Medi 2020. Mae hyn ar ffurf agenda a chofnodion y cyfarfod ar 9 Chwefror, sgrinluniau, fideos a deunydd cyfryngau cymdeithasol ac e-bost Mr McEvoy ataf ar 30 Medi, a'r holiadau a'r holiadau pellach.

5.2 Yn ei ymatebion i'r cwestiynau, fe wnaeth Mr McEvoy ddweud ei fod wedi ystyried a oedd yn ofynnol iddo ddatgan buddiant perthnasol cyn cymryd rhan yn y trafodion; gwadu iddo erioed fod yn aelod neu'n gefnogwr o ymgyrch Achub y Dolydd Gogleddol ond heb gyfaddef na gwadu iddo fod yn aelod neu'n gefnogwr o grŵp ymgyrch Achub Dolydd yr Eglwys Newydd.²¹ Derbyniodd ei fod wedi ysgrifennu at Weinidogion Iechyd a'r Amgylchedd a dywedodd ei fod wedi postio copi o'i lythyr ar Facebook i ddangos ei fod wedi ei ysgrifennu. Derbyniodd iddo fod yn bresennol mewn digwyddiad ar safle'r Dolydd a drefnwyd gan y grŵp Achub y Dolydd Gogleddol ond dywedodd wrthyf ei fod yn cofio gwneud un fideo yn unig tra'r oedd yno ac mai ei brif bwrpas wrth ei wneud oedd arfer ei hawl Erthygl 10 i ryddid mynegiant. Dywedodd nad oedd gan ei fideo Facebook ynghylch dileu cynlluniau datblygu lleol unrhyw beth i'w wneud â'r Dolydd Gogleddol.

5.3 Honnodd Mr McEvoy hefyd fod y cwynion yn rhai gwleidyddol, fy mod wedi troi'r broses gwynion yn ffars, nad oeddwn yn ddiuedd ac nad oeddwn yn addas i'r swydd. Rwy'n gwadu'r honiadau enllibus hyn yn fy erbyn. Ni chynigiodd Mr McEvoy unrhyw dystiolaeth fod y cwynion yn rhai gwleidyddol a fyddai wedi bod yn amherthnasol beth bynnag.

5.4 Nid oes unrhyw un wedi dadlau nad oes gan Mr McEvoy yr hawl i wneud na dweud unrhyw un o'r pethau yr wyf wedi'u darganfod fel ffaith a sefydlwyd. Nid oedd yr un ohonynt yn sarhaus nac yn ymosodol. Nid yw Erthygl 10 yn berthnasol o gwbl o ran ystyried y cwynion hyn. Nid y mater yw a oedd gan Mr McEvoy yr hawl i weithredu fel y gwnaeth ond wedi iddo wneud hynny a oedd ganddo fuddiant perthnasol y dylai fod wedi'i ddatgan cyn cymryd rhan yn y trafodion ar 9 Chwefror.

5.5 Mae'n amlwg bod Mr McEvoy i'w weld ar y tudalennau Facebook perthnasol am fisoedd lawer cyn 9 Chwefror fel aelod o ymgyrch Achub y Dolydd Gogledd a grŵp ymgyrchu Achub Dolydd yr Eglwys Newydd. Mae'n gwadu iddo erioed fod yn aelod neu'n gefnogwr o grŵp ymgyrch Achub y Dolydd Gogleddol, ond mewn perthynas â'r cwynion hyn ni wnaeth gyfaddef na gwadu iddo gael perthynas o'r fath â grŵp ymgyrchu Achub Dolydd yr Eglwys Newydd. Nid yw'n bwysig iawn p'un a oedd yn aelod neu'n gefnogwr o'r naill neu'r llall o'r grwpiau hyn. Gallai'r ffaith iddo gael ei weld fel aelod o'r ddau grŵp arwain unrhyw un a oedd yn edrych ar y tudalennau hyn i gredu o fewn rheswm ei fod yn aelod o'r ddau grŵp ymgyrchu ac yn gwrthwynebu'r datblygiad arfaethedig ar safle'r Dolydd Gogleddol.

5.6 Mae Mr McEvoy yn cyfaddef iddo fod yn bresennol mewn digwyddiad yn y Dolydd Gogleddol a drefnwyd gan grŵp ymgyrchu Achub y Dolydd Gogleddol a

gwneud fideo tra'r oedd yno. Nid oes dadl ynghylch a gafodd y digwyddiad ei gynnal ar 20 Mehefin 2020. Mae ei gyfrifon Facebook a Twitter yn dangos iddo bostio clip o'r fideo hwnnw ar ei gyfrif Twitter a chlip gwahanol ohono ar ei gyfrif Facebook; Gallai'r rheini a'i gwelodd yn y digwyddiad neu a wylodd y naill neu'r llall o'r clipiau ddod yn eithaf rhesymol i'r farn ei fod yn gryf yn erbyn y datblygiad arfaethedig ar safle'r Dolydd Gogleddol.

5.7 Mae Mr McEvoy yn cyfaddef iddo ysgrifennu at y Gweinidogion Iechyd a'r Amgylchedd yn mynegi ei wrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig ar safle'r Dolydd a'i fod wedi postio copi o'i llythyr ar ei gyfrif Facebook. Gallai unrhyw un a oedd yn darllen y llythyr hwnnw ddod yn eithaf rhesymol i'r farn fod Mr McEvoy yn gwrthwynebu'r datblygiad yn gryf.

5.8 Er iddo gael copi pellach o'i drydariadau dyddiedig 26 a 27 Awst a 15 Medi 2020, methodd Mr McEvoy â chyfaddef na gwadu cyfrifoldeb amdanynt. Gan na wnaeth wadu hyn, rwy'n fodlon iddo eu postio neu achosi iddynt gael eu gwneud. Gallai unrhyw un a oedd yn darllen y cynnwys hwn ddod yn eithaf rhesymol i'r farn ei fod yn gwrthwynebu'r datblygiad arfaethedig ar safle'r Dolydd Gogleddol.

5.9 Derbyniodd Mr McEvoy gyfrifoldeb am y trydriad ar 20 Rhagfyr 2020 drwy ddweud mewn ymateb i'm cwestiwn amdano ei fod yn arfer ei hawl Erthygl 10 i ryddid mynegiant. Gallai unrhyw un a oedd yn darllen y trydriad hwn ddod yn eithaf rhesymol i'r farn ei fod yn gwrthwynebu'r datblygiad arfaethedig ar safle'r Dolydd Gogleddol yn gryf.

5.10 Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth, nid oes gennyf unrhyw amheuaeth fod gan Mr McEvoy fuddiant yn y ddwy ddeiseb a nodir ym mharagraff 1.1 o'r adroddiad hwn y gallai eraill gredu o fewn rheswm y byddai'n dylanwadu ar ei gyfraniad wrth eu trafod. Rwy'n fodlon y gwnaeth Mr McEvoy dorri Rheol Sefydlog 17.24A a pharagraff 9 o'r Cod Ymddygiad ar 9 Chwefror 2021.

5.11 Roedd methiant Mr McEvoy i ddatgan buddiant perthnasol yn llawer is na'r safon y mae'n iawn disgwyl ei gweld gan yr Aelodau. Methodd ag ymddwyn mewn modd a oedd yn tueddu i gynnal a chryfhau ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn uniondeb y Senedd, ac fe wnaeth ddwyn anfri ar y Senedd. Rwy'n fodlon bod Mr McEvoy wedi torri'r egwyddor uniondeb.

5.12 Mae'r egwyddor arweiniad yn ei gwneud yn ofynnol i'r Aelodau hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion a nodir ym mharagraff 4 o'r Cod drwy arweiniad ac esiampl. Efallai y bydd y Pwyllgor o'r farn, ymhell o gefnogi'r egwyddor arweiniad, y gwnaeth Mr McEvoy ei hanwybyddu. Rwy'n fodlon bod Mr McEvoy wedi torri'r egwyddor arweiniad.

5.13 Efallai y bydd y Pwyllgor am ystyried a yw torri'r un darpariaethau cyn pen pum mis ar ôl y tro cyntaf iddo'u torri yn gwneud yr achos yn waeth.

6. MATERION O EGWYDDOR CYFFREDINOL

6.1 Yn fy adroddiad ar y cwynion blaenorol yn erbyn Mr McEvoy, fe wnes i dynnu sylw at yr angen i ffurfioli'r amgylchiadau, os o gwbl, lle dylid cyfeirio cwynion a wneir i'r Comisiynydd at y Llywydd. Rwy'n falch o nodi bod y Cod Ymddygiad newydd wedi mynd i'r afael â hyn.

7. Y BROSES

7.1 Cafodd Mr McEvoy a'r holl achwynwyr ddrafft terfynol o'r adroddiad hwn a rhoddwyd cyfle iddynt wneud sylwadau ar faterion o gywirdeb ffeithiol. Ni wnaeth yr un o'r achwynwyr fanteisio ar y cyfle hwnnw. Dywedodd Mr McEvoy, ar ôl cael tri estyniad i'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sylwadau ynghylch cywirdeb ffeithiol, ei fod yn amau cywirdeb y canfyddiad ym mharagraff 4.1.xii.33 Rwy'n fodlon bod y canfyddiad yn gywir. Honnodd hefyd fod y disgrifiad o'i honiadau o ragfarn ym mharagraff 5.3 yn anghywir, a bod yna dystiolaeth o ragfarn. Rwy'n parhau i fod yn glir o'r farn bod ei honiadau'n ddi-sail a bod y disgrifiad ohonynt fel rhai 'enllibus' yn gwbl gyfiawn.

7.2 Heddiw, anfonwyd copi o'r adroddiad terfynol at bob un ohonynt.

Douglas Bain CBE TD

Comisiynydd Safonau y Senedd 13 Ebrill 2021

ATODIAD

DOGFENNAU PERTHNASOL

Rhif	Teitl y dystiolaeth
1	Copi o'r Cwynion a Deunydd Pellach a Ddarparwyd gan yr Achwynwyr
2	Holiadau
3	Holiadau pellach
4	Llythyr y Comisiynydd Dros Dro -Achwynwyr 16 Chwefror 2021
5	E-bost McEvoy - Comisiynydd Dros Dro 30 Medi 2020
6	Llythyr Comisiynydd Dros Dro - McEvoy 2 Mawrth 2021
7	Trawsgrifiad - Y Pwyllgor Deisebau 9 Chwefror 2021
8	Cofnodion - Y Pwyllgor Deisebau 9 Chwefror 2021
9	Agenda - Y Pwyllgor Deisebau 9 Chwefror 2021
10	Sgrinlun tudalen Facebook Save the Northern Meadows
11	Sgrinlun tudalen Facebook Save the Whitchurch Meadows
12	Sgrinlun Save the Northern Meadows - aelodau